



Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

**Arholiad Aelodaeth Gyflawn 4 Hydref 2008
Papur 2: Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg**

Adroddiad y Prif Arholwr

Siom o'r mwyaf oedd gweld na lwyddodd yr un o'r ymgeiswyr i gyrraedd y safon angenrheidiol yn y rownd hon. Ar lefel Aelodaeth Gyflawn – lefel gwbl broffesiynol – mae disgwyl iddynt ddangos bod ganddynt afael gadarn iawn ar eu crefft a chryn ddawn dweud yn Saesneg ar ben hynny.

Yr hyn sy'n peri syndod bron bob tro, hyd yn oed ar lefel yr arholiadau hyn, yw anallu'r ymgeiswyr i lunio brawddegau sy'n argyhoeddi fel brawddegau naturiol yn Saesneg. Canlyniad hynny yw bod eu cyfieithiadau'n ddiangen o drwsogl eu mynegiant.

Dyma ambell sylw gan y marcwyr:

'Yr oedd un ymgeisydd yn arbennig yn euog o flerwch o ran fformat (bylchau mawr rhwng y geiriau), sillafu a chywirdeb o ran arfer y cysylltnod. O ran atalnodi, weithiau fe anwybyddid yr atalnodi yn y gwreiddiol; dro arall fe'i dilynwyd yn slafaid pan oedd angen ei newid i gyd-fynd â chystrawen y Saesneg.'

'Mae yma orddibyniaeth ar ddefnyddio'r geiriadur ynghyd â diffyg defnyddio'r geiriadur yn feirniadol i ddethol y cynigion cywir. Mae'r un peth yn wir am droadau ymadrodd – dylai ymadroddion fel "back of beyond" am "ben draw'r byd" a "chill down my spine" am "ias i lawr fy nghefn" fod yn weddol hysbys.'

Nid oedd yr holl sylwadau'n rhai beirniadol:

'Cafwyd pethau da yng ngwaith bron pob un o'r ymgeiswyr – *glorious view, perpetual holiday, the first disillusionment he experienced / disillusionment struck, I shudder at the thought, (a village) nestling.*

Ond fe ychwanegodd y marciwr: 'ni chafwyd digon ohonynt gan unrhyw ymgeisydd unigol'.

Pwynt arall a wnaed oedd methiant sawl ymgeisydd i gyfleu'r pwyslais a fynegir yn Gymraeg drwy newid cystrawen brawddeg. Mae angen ystyried sawl ffordd o gyfleu'r pwyslais hwnnw yn Saesneg, a dewis y cyfuniad gorau o eiriau yn ofalus. Y nod, wedi'r cyfan, yw osgoi dangos mai cyfieithiad yw'r darn.

Hyd yn oed o dan amodau arholiad, mae gofyn i'r ymgeisydd ail a thrydydd darllen ei gyfieithiad yn feirniadol a chael gwared, cystal ag y gall, ar olion y cyfieithu. Ys dywedodd un o'r marcwyr, '(a)r y cyfan, bwrw iddi i droi'r Gymraeg yn Saesneg (a wnaed mewn un achos), a'r darnau a'u harwyddocâd heb fod trwy felin ymennydd yr ymgeisydd.'

Gwaetha'r modd, dyna fu hanes lawer gormod o'r cyfieithu yn yr arholiad hwn.

**Prif Arholwr (o'r Gymraeg i'r Saesneg)
Tachwedd 2008**